Qualifications & Assessment
Cymwysterau ac Asesu

WJEC, 245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX
029 2026 5000 exams@wjec.co.uk www.wjec.co.uk

CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd CF5 2YX
029 2026 5000 arholiadau@cbac.co.uk www.cbac.co.uk

☎ Direct / Uniongyrchol

Cylchlythyr Rhif 107

Our reference / Ein cyfeirnod

SH/SG Circ No 107

Cysylltwch â / Contact

Date / Dyddiad

Mai 2022

Annwyl Gydweithiwr

Hysbysu o newidiadau i fanylebau cymwysterau
4973CC Lefel 3 Tystysgrif mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau
4973CD Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau

Mae'n bleser gennym gadarnhau bod Cymwysterau Cymru wedi cymeradwyo'r newidiadau canlynol i Fanylebau'r cymwysterau uchod:

1. Bydd yn bosibl gweld deunydd symbylu'r unedau canlynol ar y wefan ddiogel CBAC wjecservices.co.uk) o ddydd Llun cyntaf mis **Medi** bob blwyddyn.
   - 4973N1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
   - 4973N4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol

2. Tynnwyd y gofyniad i oruchwylio'n uniongyrchol o rai o'r tasgau asesu yn yr unedau:
   - 4973N1: Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
   - 4973N3 Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes
   - 4973N6 Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol

   Gweler y tabl sydd ynghlwm am grynodeb o reolaethau pob un o'r asesiadau di-arholiad.

3. Nawr bydd ymgeiswyr yn cael ailsefyll pob arholiad allanol **ddwywaith**. Felly mae tri chyfle i gyd gan ymgeiswyr.

Rydym yn diweddaru'r Manylebau ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu hailgyhoeddi ar ein gwefan erbyn diwedd mis Mai.

Mae'r newidiadau hyn yn weithredol o 1 Medi 2022 ar gyfer asesiadau o 2022/23 ymlaen.

Hoffem gymryd y cyfle hwn hefyd i dynnu eich sylw at yr eitem newyddion a gyhoeddwyd ar ein gwefan yn cadarnhau ein bod yn datblygu Diploma Estynedig mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau newydd. Rydym yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau cwmpasu yn ystod mis Mai a mis Mehefin a byddem yn annog athrawon a thiwtoriaid i gymryd rhan yn y rhain i helpu i lunio'r cymhwyster newydd. Ceir rhagor o wybodaeth yma.

Yn gywir,

ELAINE CARLILE

Cyfarwyddwr Cymwysterau a Gwasanaeth Asesu

WJEC CBAC Ltd is registered in Wales at the above address as a company limited by guarantee (no 3150875) and a charity (no 1073332)
Cofrestrwyd WJEC CBAC Ltd yng Nghymru yn y cyfeiriad uchod yn gwmni a gyfyngir gan warant (rhif 3150875) ac yn elusen (rhif 1073332)

Crynodeb o'r rheolaethau ar gyfer Asesiadau Di-arholiad

Uned 1 Egwyddorion gofal ac ymarfer diogel o fewn gofal person-ganolog sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau (Tystysgrif a Diploma)		
Tasg	**Crynodeb o'r dasg a'r dystiolaeth i'w chyflwyno**	**Rheolaethau i'w cymhwyso**
1	Gofynnir i'r ymgeiswyr lunio adroddiad ysgrifenedig (uchafswm o 3,500 o eiriau) yn seiliedig ar astudiaeth achos benodol. Bydd ymgeiswyr yn dewis yr astudiaeth achos o ddewis o ddwy astudiaeth ond ni ddylent gael gweld yr astudiaeth achos tan ddechrau'r asesiad.	**Amser:** Tua 14 awr **Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a nodiadau dosbarth. **Ni** all ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd. **Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses **Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp. **Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio.
2	Gofynnir i'r ymgeiswyr lunio pecyn gwybodaeth (uchafswm o 1,500 o eiriau) yn seiliedig ar y lleoliad y cyfeirir ato yn yr astudiaeth achos a ddewiswyd ganddynt.	**Amser:** Tua 6 awr **Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd. **Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth iddynt gwblhau'r dasg hon. **Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp. **Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio

Uned 3: Hybu hawliau unigolion ar bob cam o'r rhychwant oes (Tystysgrif a Diploma)		
Tasg	**Tystiolaeth i'w chyflwyno**	**Rheolaethau i'w cymhwyso**
1	Gofynnir i ymgeiswyr gynhyrchu podlediad, cyflwyniad neu fideo. (5,000 o eiriau ar y mwyaf neu recordiad o ddim mwy na 10 munud o hyd)	**Amser:** Tua 20 awr **Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.. **Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth iddynt gwblhau'r dasg hon. **Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp. **Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio.

Uned 4: Deall sut mae cyflyrau cyffredin yn effeithio ar y corff dynol (Diploma yn unig)		
Tasg	**Tystiolaeth i'w chyflwyno**	**Rheolaethau i'w cymhwyso**
1	Gofynnir i ymgeiswyr ysgrifennu erthygl a llunio ffeithlun. (Uchafswm o 3,000 o eiriau gan gynnwys y ffeithlun) Ni ddylai'r symbyliadau fod ar gael i'r ymgeiswyr tan ddechrau'r asesiad.	**Amser:** Tua 15 awr **Adnoddau:** Gall ymgeiswyr ddefnyddio meddalwedd TGCh a nodiadau dosbarth. **Gall** ymgeiswyr ddefnyddio'r rhyngrwyd. **Goruchwyliaeth:** Rhaid goruchwylio'r ymgeiswyr drwy gydol y broses **Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp. **Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio.

Uned 6: Gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol (Diploma yn unig)		
Tasg	**Tystiolaeth i'w chyflwyno**	**Rheolaethau i'w cymhwyso**
1	Gofynnir i'r ymgeiswyr lunio pecyn adnoddau (uchafswm o 5,000 o eiriau)	**Amser:** Tua 18 awr **Adnoddau:** Nid oes cyfyngiadau llym o ran defnyddio adnoddau, gan gynnwys y rhyngrwyd.. **Goruchwyliaeth:** Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr wrth iddynt gwblhau'r dasg hon. **Cydweithio:** Tasg unigol yw hon. Ni chaniateir gwaith grŵp. **Adborth:** Ni ellir rhoi adborth i'r ymgeiswyr ar y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd nes iddi gael ei marcio.